ADRAN MASNACH A DIWYDIANT

ADRODDIAD BLYNYDDOL AR WEITHREDIAD CYNLLUN IAITH GYMRAEG Y DTI 2000/2001

Cyflwyniad

Dyma adroddiad blynyddol cynta'r DTI ar weithrediad ei Chynllun Iaith Gymraeg, gan drafod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Awst 2001. Mae'r Cynllun yn gymwys i holl swyddogaethau pencadlys y DTI.

Gan mai yn Llundain y mae pencadlys y DTI, nid oedd holl agweddau canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ran creu Cynlluniau Cymraeg yn berthnasol i Gynllun y DTI. Felly nid yw holl agweddau cyfarwyddyd y Bwrdd ynghylch llunio adroddiadau yn gymwys. Gan hynny, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr ymrwymiadau o ran monitro, fel y nodwyd ym mharagraffau 55-59 o'r Cynllun.

Gwelodd y DTI rai newidiadau o ran peirianwaith llywodraeth yn ystod y flwyddyn. Yn fwy arwyddocaol, yn sgil arolwg helaeth o'r Adran, mae'r DTI ar hyn o bryd yn trefnu ffocws newydd i'w gweithgareddau, a fydd yn golygu ailstrwythuro yn ystod y flwyddyn sy'n dod. Er y bydd hyn yn effeithio ar y trefniadau ar gyfer gweinyddu'r Cynllun, ni ragwelir y bydd y ffocws newydd i weithgareddau'r DTI yn peri bod angen diwygio'r ymrwymiadau cyfredol i'r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, pan ddaw'r newidiadau'n glir, bydd angen diwygio rhai agweddau ar Gynllun y DTI - fel y disgrifiad o'r Adran yn y cyflwyniad i'r Cynllun - er mwyn adlewyrchu'r strwythur newydd.

Graham Rowlinson, Pennaeth yr Uned Llywodraeth Agored a Diogelu Data (fel y cafodd ei hailenwi a'i helaethu'n ddiweddar), sy'n gyfrifol am weinyddu Cynllun yr Iaith Gymraeg.

Cyhoeddusrwydd a chanllawiau mewnol yng nghyswllt y Cynllun

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg y DTI ei lansio'n anrhydeddus gan Syr Michael Scholar, Ysgrifennydd Parhaol yr Adran ar y pryd, gyda chyhoeddusrwydd amlwg yn ein llythyr newyddion mewnol. Yn sgil y lansio, cylchredodd Cyfarwyddwr Cyffredinol Adnoddau a Gwasanaethau'r DTI gofnod ymhlith holl benaethiaid Unedau Rheoli'r Adran, i'w ddosbarthu wedyn ymhlith y staff, yn tynnu eu sylw i ddyfodiad y Cynllun ac i'w oblygiadau i waith yr Unedau Rheoli. Mae'r Uned Llywodraeth Agored a Diogelu Data wedi cylchredeg cyfarwyddyd pellach ynghylch y Cynllun ymhlith y staff. Mae testun llawn y Cynllun a chanllawiau yn ei gylch ar gael i'r staff ar un o safleoedd mewnrwyd y DTI. Tynnwyd sylw holl aelodau'r staff at ymrwymiadau'r Cynllun ac maent yn gwybod ble i gael canllawiau pellach.

Cyhoeddusrwydd allanol

Yn sgil lansio'r Cynllun, cyhoeddwyd hysbysebion mewn papurau newydd Cymreig. Mae gan wefan yr Adran gyswllt amlwg sy'n mynd â'r darllenydd i dudalennau Cymraeg y safle. Mae'r cyswllt i'w weld ar dudalen hafan y safle ac mae wedi ei aroleuo i dynnu sylw ato.

Y broses fonitro

Prif fyrdwn y broses fonitro yw trefn dreillio flynyddol ymhlith holl Unedau Rheoli'r DTI, a honno wedi ei hategu gan fanylion penodol ynghylch gweithgarwch Cymraeg, er enghraifft o Wasanaeth Cyfieithu'r Adran a'i Huned Gyhoeddiadau. Yn ystod y flwyddyn, trefnwyd ymarferiad monitro interim ac, yn fwy penodol, bu inni fonitro lefel a natur y deunydd Cymraeg a gafodd ei gynhyrchu fel copi caled neu ei gyhoeddi ar wefan y DTI.

Rhoi Gwasanaethau

Dim ond at bencadlys y DTI y mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cyfeirio. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu cefnogaeth i ddiwydiant a datblygiad diwydiannol yng Nghymru, gan gynnwys Cyswllt Busnes, y rhwydwaith cynghori a chefnogi cwmnïau bach i Gymru. Felly, at ei gilydd bydd siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn cysylltu â'r Cynulliad Cenedlaethol neu Cyswllt Busnes yn hytrach na'r DTI i gael cyngor mewn meysydd o'r fath.

Gan hynny, mae ymrwymiadau'n Cynllun Iaith Gymraeg yn adlewyrchu ffocws deublyg materion yn ymwneud â Chymru a materion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Polisïau a mentrau newydd

Fel rhan o'r cyhoeddusrwydd a'r canllawiau mewnol yng nghyswllt y Cynllun y soniwyd amdanynt uchod, sicrhawyd bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol o ymrwymiadau'r Adran i'r iaith Gymraeg.

Wrth i'w sylw gael ei dynnu at y Cynllun Cymraeg, mater i bob Uned Rheoli yw sicrhau bod ei pholisïau a'i mentrau yn cymryd y Cynllun i ystyriaeth. Ni welsom unrhyw achosion lle bu angen diwygio polisïau neu fentrau arfaethedig i gwrdd ag anghenion y cyhoedd Cymraeg yng Nghymru.

Cyhoeddiadau a chyhoeddusrwydd

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y DTI yn cydnabod nad yw'n ymarferol i'r DTI gynhyrchu ei holl gyhoeddiadau yn Gymraeg.

Mae cyhoeddiadau'r DTI a gynhyrchwyd fel copi caled wedi eu rhestru yng nghatalog cyhoeddiadau'r Adran (Publications@dti) sydd ar gael ar wefan y DTI yn www2.dti.gov.uk Gellir defnyddio peiriant chwilio testun-rhydd y catalog i ddod o hyd i'r cyhoeddiadau hynny sydd ar gael yn llwyr neu'n rhannol yn Gymraeg. Ar hyn o bryd mae 55 o eitemau ar gael yn llwyr neu'n rhannol yn Gymraeg. Mae'r deunydd a gyhoeddwyd fel copi caled yn Gymraeg wedi canolbwyntio'n bennaf ar y cyhoedd yn gyffredinol, yn enwedig ym meysydd diogelu'r defnyddiwr a chysylltiadau cyflogaeth, ac ar y sector ynni i'r graddau y byddai datblygiadau yn effeithio ar Gymru. Er enghraifft, mae'r DTI wedi cyhoeddi fersiynau Cymraeg o daflen yn cynghori defnyddwyr ynghylch y rheoliadau gwerthu o bell; deunydd ar ddiogelwch tân gwyllt; taflen a phoster yn rhoi cyfarwyddyd i weithwyr ynghylch eu hawl i amser

yn rhydd o'r gwaith i ddelio â phob rhyw argyfwng sy'n effeithio ar bobl sy'n dibynnu arnynt am ofal; llyfrynnau'n ymwneud â thâl mamolaeth a seibiant rhieni; a chyhoeddiad yn egluro proses ganiatâd symleiddiedig a arfaethir yng nghyswllt gorsafoedd alltraeth i gynhyrchu pwer o'r gwynt a'r môr.

O dan y Cynllun Iaith Gymraeg rydym wedi ymrwymo i roi ar wefan y DTI fersiynau Cymraeg o ddeunydd sy'n ymddangos ar y Rhyngrwyd lle cyfieithwyd i'r Gymraeg y deunydd cyfatebol ar ffurf copi caled. Yn gyson â'r ymrwymiad hwn, gellir gweld cyhoeddiadau Cymraeg trwy gyswllt uniongyrchol ar dudalen hafan y DTI. Mae'r deunydd hwn yn cynnwys trefn gwynion y DTI, rhagair i Gynlluniau Gwariant y DTI ar gyfer 2001-02 hyd 2003-04, a chyfarwyddyd a chyngor i ddefnyddwyr ac mewn perthynas â chysylltiadau cyflogaeth.

Mae'n ofynnol i staff sy'n gyfrifol am gynhyrchu cyhoeddiadau lenwi ffurflen sydd, ymhlith agweddau eraill, yn mynnu eu bod yn ystyried ein hymrwymiadau i'r iaith Gymraeg gyda golwg ar gyhoeddiadau. Bu hyn o gymorth i'r DTI gymryd camau cychwynnol sicr o ran darparu deunydd cyhoeddedig yn Gymraeg. Rydym yn ymwybodol, fodd bynnag, ei bod yn well gan y Bwrdd i'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o gyhoeddiadau, lle cynhyrchir nhw ar wahân, gael eu rhyddhau i'r cyhoedd yr un pryd. Ni fu hyn bob amser yn bosibl yn ystod y flwyddyn gyntaf hon, a dyma agwedd lle mae'n arfaeth gennym wella'n perfformiad.

Ymwybyddiaeth o anghenion siaradwyr Cymraeg

Mae cyfarwyddyd a roddwyd i staff yn gwneud yn glir fod yr Adran wedi ymrwymo i hybu ymwybyddiaeth o anghenion siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn uniongyrchol a thrwy'n partneriaid. Mae'r Adran yn ymwybodol bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi mynegi diddordeb arbennig mewn sicrhau bod gweithredwyr cyfleustodau yn cael eu hannog i fodloni anghenion siaradwyr Cymraeg. Gan hynny, buom yn neilltuol o weithgar yn y maes hwn trwy gysylltu'n uniongyrchol ar lefel y rheoleiddiwr a thrwy wneud yn siwr fod Cyfarwyddyd Cymdeithasol ac Amgylcheddol drafft i'r Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn cynnwys gofyniad i'r Awdurdod gadw mewn cof anogaeth y Llywodraeth i gwmnïau nwy a thrydan ystyried Deddf yr Iaith Gymraeg wrth weithredu yng Nghymru fel bod anghenion defnyddwyr Cymraeg eu hiaith yn cael eu diwallu.

Gohebiaeth

Rydym wedi cychwyn gohebiaeth yn Gymraeg sawl gwaith mewn ffordd ragflaenorol, yn enwedig lle mae materion o ddiddordeb i bobl Cymru ac ym maes materion defnyddwyr. Er enghraifft, bu inni anfon llythyrau Cymraeg at weithredwyr cyfleustodau yn cyfleu penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran angen Asesiad o'r Ardrawiad Amgylcheddol o dan y Rheoliadau Gwaith Trydan, ynghyd â llythyrau Cymraeg at bob cyngor cymuned yn hybu cynllun cyllido newydd ar gyfer is-swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig.

Cawsom tuag ugain llythyr Cymraeg, bron pob un mewn ymateb i ddogfennau ymgynghori a gynhyrchwyd yn Gymraeg.

Cwynion ac awgrymiadau ynglyn â gweithrediad y Cynllun

Caiff staff eu cyfarwyddo y dylai unrhyw gwynion am weithrediad y Cynllun gael eu tynnu i sylw'r Uned Llywodraeth Agored a Diogelu Data. Cawsom un gwyn yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Roedd hon yn ymwneud â'r cyfieithiad Cymraeg o Hysbysiad gan y DTI i'r Wasg yn cyhoeddi bod y Bwrdd wedi derbyn y Cynllun. Ymddangosai fod yr achwynydd yn fodlon â'n hymateb i'r pwyntiau a godwyd.

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y DTI ac adran Gymraeg gwefan y DTI, sydd ar gael trwy dudalen hafan y DTI, yn ei gwneud yn glir fod croeso i awgrymiadau ynghylch gweithrediad y Cynllun a'r tudalennau Cymraeg ar ein gwefan. Ni chawsom unrhyw awgrymiadau yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn o ran sut y gellid gwella'r ffordd y gweithredir ymrwymiadau'r Cynllun i'r iaith Gymraeg.

Casgliadau

Credwn fod y flwyddyn gyntaf hon o weithrediad y Cynllun wedi gosod fframwaith solet ar gyfer cyflawni'n hymrwymiadau i'r iaith Gymraeg. Nodwn na chafwyd unrhyw atborth sylweddol gan y cyhoedd Cymraeg ynglyn â gweithrediad Cynllun Iaith Gymraeg y DTI ac na welwyd unrhyw ddymuniad amlwg ar ran y cyhoedd Cymraeg i ddilyn busnes â phencadlys y DTI yn Gymraeg. I ryw raddau, byddai angen i unrhyw ddatblygiad pellach o'n hymrwymiadau i'r iaith Gymraeg fod yn gymesur â'r ymateb a ddenir ganddynt yng Nghymru.

Er hyn, cydnabyddwn fod modd gwneud mwy. Rydym yn falch inni ddechrau'n dda trwy gynhyrchu cyhoeddiadau'r DTI yn llwyr neu'n rhannol yn Gymraeg lle mae hynny'n briodol; ac rydym yn hyderus y gwelir mwy o le beunydd i'r iaith ar ein gwefan. Y prif angen lle mae cyhoeddiadau yn y cwestiwn yw sicrhau bod staff yn caniatáu digon o amser o fewn y broses gynllunio i fersiynau Cymraeg o'n cyhoeddiadau gael eu rhyddhau yr un pryd â'r fersiynau Saesneg.

Ein nod ar gyfer adroddiad 2001-2002 yw gwneud yn siwr ein bod yn gwbl weithgar ar draws ystod lawn yr ymrwymiadau i'r iaith Gymraeg. I'r diben hwn, bwriadwn hybu Cynllun yr Iaith Gymraeg yn llawn yn y Flwyddyn Newydd. Sicrheir hyn trwy ddeunydd ysgrifenedig a gaiff ei gylchredeg ymhlith pawb o'r staff a thrwy hyrwyddo'r Cynllun mewn cyfres o seminarau i'w trefnu gan yr Uned Llywodraeth Agored a Diogelu Data. Fel rhan o'r gweithgarwch hybu hwn, fe roddwn ystyriaeth i unrhyw awgrymiadau y gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod am eu cyflwyno inni.

Wrth weinyddu agweddau eraill ar y Cynllun, byddwn hefyd yn ystyried a allwn elwa ymhellach ar y trefniadau, o ran cynhyrchu cyhoeddiadau, sy'n mynnu bod staff yn dweud yn ysgrifenedig a roesant sylw i anghenion y cyhoedd Cymraeg.